# JONES, JOHN ISLAN (1874 - 1968), gweinidog (U), awdur

**Enw:** John Islan Jones
**Dyddiad geni:** 1874
**Dyddiad marw:** 1968
**Rhiant:** Mary Jones
**Rhiant:** Evan Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (U), awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Mary Auronwy James

Ganwyd 17 Chwefror 1874 yn fab Evan a Mary Jones, Tynewydd (Cornant a Melin Llysfaen wedi hynny), Cribyn, Ceredigion. Aeth i ysgolion Cribyn a Llanwnnen (o dan David Thomas, ' Dewi Hefin') nes yr oedd tua deg oed. Ar ôl bod yn was fferm ac yn saer maen gyda'i dad mynychodd ysgol David Evans, gweinidog (U), Cribyn (1896-98). Enillodd ysgoloriaeth, ac aeth i Goleg Iesu, Rhydychen lle y graddiodd yn 1901 cyn mynd i Goleg Manceinion, Rhydychen i baratoi am y weinidogaeth. Enillodd ysgoloriaeth Hibbert a'i galluogodd i fynd i Brifysgolion Marburg a Jena yn yr Almaen yn 1904, ond dychwelodd adref cyn gorffen cwrs gradd Ph.D. oherwydd afiechyd; cafodd radd M.A. yn 1909. Treuliodd anterth ei ddyddiau yn weinidog (U) yn Lloegr : Accrington (1906-09), Bolton (1909-17) a Hindley (1917-39), cyn ymddeol i'w fro enedigol. Ac yntau mewn gwth a oedran gwahoddwyd ef i ddod yn brifathro Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin yn 1945; bu yno 3 blynedd a gweinidogaethu i Eglwys Parcyfelfed yr un pryd. Yr oedd yn wr o argyhoeddiadau cryfion, yn hyddysg yn y cynganeddion ac yn arweinydd côr. Cyhoeddodd *A brief history of the Unitarian Church, Accrington* (1909), *Egwyddorion yr Undodiaid* (1948), a chyfrol o atgofion, *Yr hen amser gynt* (1958) a enillodd iddo wobr Pwyllgor Addysg Ceredigion. Ceir ysgrifau ganddo yn *Yr Ymofynnydd* (1905-59), *Cymru*, a *Trans. Unitarian Historical Society* (gweler Glyn Lewis Jones, *Llyfryddiaeth Ceredigion 1600-1964*). Bu farw yn fab gweddw 28 Mai 1968.

## Awdur

**Dr Mary Auronwy James**

## Ffynonellau

*Yr Ymofynnydd*, 1901, 189; 1904, 192; 1906, 165; 1968, 81-7

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6240907

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu